

Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012/2013

**Enw'r Awdurdod Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Lleol:**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r meysydd allweddol o gynnydd ar gyfer y flwyddyn 2012/13 yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent a meysydd i'w gwella yn y dyfodol

Crynodeb

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent wedi parhau i berfformio'n dda drwy gydol 2012/13. Gwnaed gwaith sylweddol i fwrw ymlaen ag integreiddio gydag adran gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac, er na ddigwyddodd hynny, mae'r ddwy ochr wedi cadw ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth mewn meysydd gwasanaeth penodol. Er na lwyddwyd i integreiddio, cyfrannodd cyfarwyddwyr y ddwy adran gwasanaethau cymdeithasol at adolygiad o weithio ar y cyd a arweiniodd at gyhoeddi'r gwersi allweddol a ddysgwyd ac awgrymiadau cadarnhaol a chyngor i asiantaethau sy'n gweithio mewn partneriaeth.

Mae'r cyngor wedi parhau i gynnal a chwilio am ffyrdd newydd o weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol, y gwasanaeth iechyd a'r trydydd sector.

Mae adroddiad blynyddol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol yn cyflwyno golwg clir, cytbwys a chynhwysfawr o'r gwasanaethau a ddarperir. Mae hyn yn cynnwys myfyrio ar gynnydd yn y meysydd blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer y flwyddyn ar gyfer gwasanaethau i oedolion ac i blant. Mae'r adroddiad yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol gyda nodau mesuradwy yn seiliedig ar gynnydd blaenorol a strategaeth/polisi Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn cydnabod y cyfyngiadau ariannol parhaus ac effaith diwygio lles.

Oedolion

Mae'r cyngor wedi adolygu ac wedi adeiladu ar gyflawniadau blaenorol ac mae gwaith wedi ei gynnal i foderneiddio gwasanaethau. Mae hyn wedi cynnwys adolygiad parhaus o ddarpariaeth fewnol, trefniadau comisiynu a chydweithio gydag awdurdodau lleol yn rhanbarth y De-ddwyrain i archwilio a datblygu prosesau llyfnach ar gyfer comisiynu gwasanaethau.

Aethpwyd ati i gydweithio ar draws yr awdurdodau rhanbarthol, gyda'r bwrdd iechyd a'r trydydd sector mewn nifer o ardaloedd gan gynnwys datblygu'r model

eiliddwch i bobl hŷn, gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu, a diogelu.

Plant

Mae ailstrwythuro gwasanaethau i blant wedi cael ei adolygu ac mae'r gwasanaeth wedi parhau i berfformio'n dda. Mae newidiadau ychwanegol wedi eu gwneud mewn ymateb i bolisi'r llywodraeth a'r ymrwymiad i ymagwedd o gydweithio at wasanaethau ar draws y rhanbarth. Bydd monitro effaith hyn yn allweddol i sicrhau safon uchel barhaus o ran perfformiad yn y gwasanaethau i blant.

Mae AGGCC wedi nodi'r risgiau posibl canlynol:

- Pwysau a diffygion cyllidebol sylweddol. Cynnal, cadw a datblygu gwasanaethau mewn amgylchedd sy'n heriol i'r cyngor, yn arbennig o ran gofal cymdeithasol i oedolion.
- Effaith gweithredu trefniadau rhanbarthol newydd ar lefel leol, gan sicrhau llywodraethu a rheolaeth effeithiol.
- Cyfleoedd a risgiau posibl yn deillio o effeithiau newidiadau i'r tîm uwch reolwyr.

Ymateb i feysydd datblygu'r llynedd

Gwnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent gynnydd cadarnhaol yn y meysydd i'w datblygu a nodwyd y llynedd.

Roedd hyn yn cynnwys:

- Cynnydd mewn cydweithio ag iechyd ac awdurdodau lleol eraill o fewn y rhanbarth.
- Gwell perfformiad mewn timau rheoli gofal yn y gwasanaethau i oedolion.
- Adolygiad o ddulliau monitro ansawdd mewn gwasanaethau a gomisiynir a chydweithio gydag iechyd wrth adolygu gwasanaethau.
- Cyfradd uwch o dderbyn taliadau uniongyrchol gydag agenda glir i barhau i ddatblygu hyn i'r flwyddyn nesaf.
- Monitro llwythi achosion yn y gwasanaethau i oedolion.

Mae'r cyngor wedi archwilio'r diffyg o ran y rhai sy'n derbyn asesiadau gofalmwr, ac mae angen ystyried hyn ymhellach er mwyn gwella ymgysylltiad gofalmwr.

Arfer da a nodwyd

Mae AGGCC wedi nodi'r meysydd canlynol o arfer da:

- Ymrwymiad parhaus i archwilio meysydd ar gyfer cydweithio gydag ystod eang o bartneriaid, er enghraifft y tîm adnoddau cymunedol o fewn model ehangach Eiddilwch Gwent.
- Rhannu'r hyn a ddysgwyd o'r prosiect cydweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Ymweliadau ac arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn

Yn ogystal â chyfarfodydd ymgysylltu parhaus ac arolygiadau rheoleiddio a gynhaliwyd, gwnaeth AGGCC y gwaith canlynol ym Mlaenau Gwent:

- Mynychu cyfarfodydd integreiddio.
- Mynychu fforymau darparwyr ynghylch integreiddio.
- Mynychu cyfarfodydd craffu.

Meysydd i AGGCC wneud gwaith dilynol ynddynt y flwyddyn nesaf

Mae nifer o feysydd penodol ar gyfer gwella wedi eu nodi ym mhrif ran yr adroddiad hwn. Trafodir cynnydd y cyngor ynglŷn â'r rhain gyda'r cyngor mewn cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn ystod y flwyddyn i ddod.

- Adolygiad o'r tîm datblygu gweithlu ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
- Archwilio dulliau ar gyfer ymgysylltu â gofalwyr a'u cefnogi.
- Comisiynu a threfniadau ar gyfer adolygiad o ansawdd ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r sir i bobl ag anabledd dysgu.
- Adolygiad thematig cenedlaethol o gomisiynu gofal cymdeithasol i bobl hŷn.
- Arolygiad thematig cenedlaethol o blant sy'n derbyn gofal.
- Gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru i gychwyn adolygiad i effeithiolrwydd prosiect Eiddilwch Gwent.

PERFFORMIAD

Llunio gwasanaethau:

Oedolion

Mae gan y cyngor strategaeth wedi'i sefydlu ar gyfer cyfeiriad tymor hir y gwasanaethau i oedolion (Byw'n Annibynnol ym Mlaenau Gwent yn yr 21ain Ganrif) a gafodd ei adolygu a'i ddiwygio ym mis Tachwedd 2012. Mae'r ddogfen yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer y dyfodol o ran gwasanaethau yn unol â strategaeth a pholisi Llywodraeth Cymru ac mae'n seiliedig ar asesiad o anghenion lleol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu hefyd yng nghynllun integredig sengl y cyngor sy'n ganolog i'r gwasanaethau ar draws y cyngor ac sy'n cael ei gynhyrchu ar y cyd gyda phartneriaid lleol o'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol.

Mae'r strategaeth hirdymor i oedolion yn cynnwys ymrwymiad i gefnogi a hyrwyddo annibyniaeth o fewn y gymuned ochr yn ochr â'r angen i ddarparu gwasanaethau i niferoedd cynyddol o bobl ag anghenion cymhleth. Mae'r adolygiad yn cydnabod y goblygiadau ariannol a'r heriau o ran bodloni'r galw cynyddol am wasanaethau cymdeithasol ac mae'n cynnig strategaethau i gynnal gwasanaethau o ansawdd da a gwneud y defnydd gorau o adnoddau. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag ystod eang o bartneriaid gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol eraill, byrddau iechyd, y trydydd sector a darparwyr gwasanaethau a gomisiynir.

Mae'r weledigaeth hon ac ymateb y gwasanaethau cymdeithasol i anghenion sy'n newid yn cael ei adlewyrchu yn y blaenoriaethau ar gyfer gwelliant yn adroddiad y cyfarwyddwr ac yn y dystiolaeth ategol o gynnydd a ddarparwyd.

Roedd ad-drefnu'r ddarpariaeth fewnol yn cynnwys yr un cartref gofal a oedd ar ôl i bobl hŷn yn cael ei ddefnyddio i letya pobl ag anghenion iechyd meddwl, ac ailstrwythuro parhaus ar y gwasanaethau gofal cartref. Nododd arolygiadau AGGCC o'r gwasanaeth hyn ganlyniadau cadarnhaol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Mae cynlluniau i ddatblygu darpariaeth gofal ychwanegol wedi cael eu gohirio.

Gwelir tystiolaeth o gefnogi annibyniaeth pobl mewn dangosyddion perfformiad sy'n dangos cynnydd mewn derbyn taliadau uniongyrchol. Mae gostyngiad yn y nifer o bobl a gefnogir yn y gymuned. Mae'r dystiolaeth ategol a ddarparwyd gydag adroddiad y cyfarwyddwr yn nodi y gall hyn fod oherwydd bod pobl yn cyflawni nodau'n annibynnol. Byddai dadansoddiad pellach o'r ystadegau hyn yn fuddiol i sefydlu ac adolygu'r canlyniadau i bobl sy'n byw'n annibynnol.

Gwelodd 2012 nifer o ddigwyddiadau ymgynghori â rhanddeiliaid yn ymwneud ag integreiddio'r gwasanaethau cymdeithasol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mynychodd AGGCC ddigwyddiad i ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynir. Roedd llawer o bobl yn bresennol a gwelwyd perthynas dda rhwng darparwyr a chomisiynwyr. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus hefyd wrth ddatblygu'r cynllun integredig sengl.

Dangosir datblygiad parhaus ac ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth mewn amrywiaeth o wasanaethau i oedolion. Er enghraifft, mae 2012/13 wedi gweld yr awdurdod yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan mewn gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu, a bydd yr awdurdodau iechyd a lleol sy'n gweithio yn y bartneriaeth hon eisiau sicrhau bod adolygiad a dysgu parhaus yn cael eu cynnal a'u rhannu.

Mae'r awdurdod yn parhau i weithio gyda'r bwrdd iechyd i ddarparu'r tîm adnoddau cymunedol sydd ag adnoddau ychwanegol er mwyn ymateb i alw. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhan o'r prosiect Eiddilwch Gwent ehangach a fydd, fe ragwelir, yn cael ei werthuso yn 2014 gan reoleiddwyr ar y cyd.

Mae gwasanaethau cymdeithasol Blaenau Gwent wedi'u cynnwys o fewn y gwasanaeth lleoli oedolion rhanbarthol, Bywydau a Rennir, sy'n cael ei gynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Yn ystod arolygiad diweddar o'r gwasanaeth hwn gan AGGCC, cafwyd adborth cadarnhaol gan sampl bychan o ddefnyddwyr gwasanaeth am eu profiad o'r gwasanaeth.

Plant

Mae cyfeiriad strategol a gweledigaeth ar gyfer y gwasanaethau i blant wedi'u nodi mewn Cynllun Plant a Phobl Ifanc sydd i fod i gael ei adolygu yn 2014. Mae hwn yn seiliedig ar asesiad o anghenion lleol ac mae ei negeseuon allweddol, fel yn y gwasanaethau i oedolion, wedi eu hadlewyrchu yn y Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Blaenau Gwent a ddatblygwyd gan bartneriaid y bwrdd gwasanaethau lleol.

Dechreuodd ailstrwythuro yn y gwasanaethau i blant yn 2011 ac adolygwyd hyn yn 2012/13. Ar y cyfan, amlygodd yr adolygiad mewnol sylwadau cadarnhaol gan staff a gweithwyr proffesiynol gyda thystiolaeth o ganlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc. Mae data perfformiad yn nodi bod niferoedd y plant ar y gofrestr amddiffyn plant wedi gostwng ynghyd ag ailatgyfeiriadau i'r gwasanaeth sy'n awgrymu effaith gadarnhaol ar y gwasanaeth.

Mae'r cyngor wedi parhau i gynnal perthynas waith agos, a gweithio mewn partneriaeth, gydag adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol eraill, a sefydliadau ieuchyd a'r trydydd sector. Ers mis Rhagfyr 2012 mae'r cyngor wedi bod yn rhan o'r bwrdd prosiect sy'n datblygu gwasanaeth cymorth i deuluoedd integredig De-ddwyrain Cymru, a ddylai fod ar waith erbyn canol 2013.

Mae'r cyngor yn parhau i gynnal ac arwain y gwasanaethau mabwysiadu ar gyfer Blaenau Gwent a dau awdurdod cyfagos a bwriedir datblygu hyn ymhellach i gynnwys dau awdurdod ychwanegol. Mae hwn yn gam cadarnhaol tuag at ddatblygu'r bwrdd mabwysiadu cenedlaethol gyda chanolfannau rhanbarthol.

Meysydd o gynnydd

- Gweithredu'r tîm datblygu gweithlu ar y cyd.
- Adolygu ac ail-ganolbwyntio cyfeiriad strategol Byw'n Annibynnol ym Mlaenau Gwent yn y 21ain Ganrif i adlewyrchu anghenion lleol newidiol.

Meysydd i'w gwella

- Ystyried dulliau i asesu effeithiolrwydd y dulliau i gefnogi annibyniaeth yn y gymuned.

Cael gafael ar gymorth:

Mae gan y cyngor ystod o strategaethau i gyfathrebu â'r cyhoedd o ran y gwasanaethau sydd ar gael a sut i gael gafael arnynt. Mae'n dweud y ceir llwyddiant parhaus gyda'i ganolfan gyswllt.

Mae gwybodaeth electronig a gwybodaeth fwy traddodiadol ar ffurf taflenni ar gael i'r cyhoedd. Mae gwefan yr awdurdod lleol yn glir ac yn hawdd ei defnyddio, ac mae'n darparu dolenni at amrywiaeth o wefannau/cyfeiriadau ychwanegol sy'n berthnasol i ystod eang o ymholiadau posibl defnyddwyr gwasanaeth. Caiff traffig i'r wefan ei fonitro ac mae ymweliadau â'r tudalennau gofal cymdeithasol wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol.

Mae strategaeth Gwybodaeth ac Ymgynghoriad Gofalwyr ar y cyd wedi ei ddatblygu mewn partneriaeth â phedwar awdurdod lleol arall, byrddau ieuchyd a'r sector gwirfoddol. Mae hyn yn darparu cynllun gweithredu lefel uchel i wella gwasanaethau i ofalwyr.

Oedolion

Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn nodi bod y nifer y cyfanswm o atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol wedi aros yn weddol sefydlog ac mae'r dangosyddion perfformiad yn dangos hyn hefyd. Mae cydnabyddiaeth yn yr adroddiad o'r cynnydd tebygol mewn galw am wasanaethau gyda demograffeg newidiol a chynnydd o ran pobl sydd angen gofal mwy cymhleth.

Mae gwasanaethau i oedolion wedi gwella eu perfformiad o ran adolygiadau cynlluniau gofal i bobl sy'n derbyn gwasanaethau. Bydd angen i'r cyngor ystyried strategaethau i sbarduno'r tueddiad at i fyny hwn i gyrraedd eu targed eu hunain. Nodwyd bod hyn yn dal yn flaenoriaeth a chafodd ei drafod mewn grwpiau ymgysylltu.

Mae'r ganolfan gyswllt hefyd yn derbyn atgyfeiriadau i'r tîm ail-alluogi ac adnoddau cymunedol ar y cyd, ac mae'r adroddiad ystadegol blynyddol yn nodi bod nifer sylweddol o atgyfeiriadau yn pasio drwy'r pwynt hwn.

Mae cyfradd oediadau wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol wedi cynyddu. Er bod hyn yn dal i fod o fewn chwarterel uchaf y perfformiad ar draws Cymru, mae'r cyngor wedi dadansoddi achosion posibl am hyn ac yn nodi bod y dull o grynhoi ystadegau wedi newid. Mae gan y cyngor berthynas waith dda ag eraill ar lefel "llawr gwlad" ac mae'n cwrdd yn wythnosol gyda phartneriaid iechyd i adolygu pob unigolyn y mae ei drosglwyddiad wedi ei oedi.

Er bod 100% o ofalwyr defnyddwyr gwasanaeth sy'n oedolion wedi cael cynnig asesiad gofalwyr mae'r nifer o bobl sydd wedyn yn derbyn y cyfle i gael asesiad wedi gostwng. Er hynny, o'r rhai a gafodd asesiad mae'r nifer y darparwyd gwasanaeth iddynt wedi cynyddu. Mae hyn wedi bod yn bwnc trafod mewn cyfarfodydd ymgysylltu ac mae'r cyngor yn cydnabod bod hwn yn faes i'w wella. Er y ceir fforwm gofalwyr, mae'r cyngor yn ystyried dulliau i wella ymgysylltiad.

Plant

Mae'r cyfarwyddwr yn adrodd bod gwasanaethau i blant wedi gweld cynnydd mewn atgyfeiriadau ac asesiadau cychwynnol. Er hynny, nid yw nifer y plant sy'n derbyn gwasanaeth wedi newid. Mae'r cyngor wedi cynnal lefel uchel o berfformiad yn ei ymateb i atgyfeiriadau. Cwblheir asesiadau cychwynnol a chraidd o fewn yr amserlenni ac mae'r cyngor yn rhagori ar ei dargedau mewnol a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae nifer yr ailatgyfeiriadau wedi gostwng mymryn (o fewn targed y cyngor a llawer is na chyfartaledd Cymru) ac mae hyn yn awgrymu bod y broses asesu'n gadarn.

Mae nifer y plant mewn angen y neilltuir gweithiwr cymdeithasol iddynt wedi gostwng ac, er bod nifer y plant sy'n cael eu gweld mewn gwirionedd yn dal o fewn y cyfartaleddau cenedlaethol, bydd angen i'r cyngor fonitro'r broses o wneud penderfyniadau a'r canlyniadau ar gyfer yr unigolion hyn.

Ceir pwyslais cryf o hyd ar gynllunio sefydlogrwydd ac mae'r dangosyddion perfformiad yn dangos bod 100% o blant wedi cael cynllun sefydlogrwydd yn eu hail adolygiad.

Mae gwasanaethau i ofalwyr ifanc yn dal yn gyson gyda 100% yn cael cynnig asesiad. Roedd cynnydd o ran y gofalwyr hynny a oedd yn derbyn gwasanaeth wedyn er bod y nifer cyffredinol yn aros yn isel iawn (11 gofalydd ifanc wedi'u nodi a 10 yn derbyn gwasanaeth). Mae gofalwyr ifanc bellach yn cael eu cefnogi gan fudiad gwirfoddol ac mae adroddiad o'r chwarter diwethaf yn dangos cynnydd yn y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn. Mae hyn oherwydd mwy o gyhoeddusrwydd a chodi ymwybyddiaeth gyda phartneriaid allweddol.

Meysydd o gynnydd

- Gwell perfformiad o ran adolygiadau oedolion.

Meysydd i'w gwella

- Parhau i archwilio dulliau ar gyfer ymgysylltu â gofalwyr.

Y gwasanaethau a ddarparwyd:

Oedolion

Mae'r cyngor wedi parhau â'i bwyslais ar ddatblygu gwasanaethau i gynnal pobl yn y gymuned. Mae hyn wedi cynnwys adnoddau ychwanegol i'r tîm adnoddau cymunedol (10 gweithiwr cymorth ychwanegol). Mae hwn yn dal i fod yn faes a arweinir gan iechyd yn bennaf gyda phwyslais ar y bobl hynny sydd ag anghenion cymhleth. O ganlyniad, mae'r cyngor yn cydnabod bod llai o bobl sy'n gadael y gwasanaeth yn gallu bod yn annibynnol (17%). Dylid ystyried adolygiad o bwyslais a swyddogaeth gwasanaethau i fonitro ail-alluogi llwyddiannus er mwyn cyflawni byw'n annibynnol yn unol â strategaeth byw'n annibynnol y cyngor.

Mae nifer y bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal wedi aros yn sefydlog er bod nifer y bobl ag anghenion cymhleth ac sydd angen darpariaeth gofal dementia wedi cynyddu. Y llynedd, nododd AGGCC yr angen i wella'r systemau ar gyfer monitro gwasanaethau a gomisiynir ac mae'r cyngor wedi adolygu ei system ar gyfer monitro contractau i gynnwys partneriaid iechyd. Mae'r dull hwn yn cynnwys darpariaeth fewnol. Pan fu materion ynglŷn ag ansawdd a darparu gofal mae'r cyngor wedi herio hyn, gan weithio gyda darparwyr i wella ansawdd y gwasanaethau.

Mae gweithio ar y cyd wedi cynnwys y gwasanaeth lleoli oedolion, Bywydau a Rennir, sy'n cael ei gynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Amlygwyd canlyniadau cadarnhaol i bobl gan arolygiad diweddar o'r gwasanaeth hwn.

Mae nifer uchel o ddefnyddwyr gwasanaeth ag anabledd dysgu yn cael eu lleoli y tu allan i'r sir ac mae'r adroddiad comisiynu blynyddol yn amlygu'r angen i sicrhau bod y lleoliadau hyn yn cael eu monitro'n effeithiol a bod y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau'n cael eu diogelu. Mae'r adroddiad yn amlinellu dewisiadau i fynd â hyn ymlaen i 2013/14.

Mae moderneiddio'r gwasanaeth gofal cartref wedi parhau ac mae'n cynnwys ad-drefnu'r ddarpariaeth fewnol a'r defnydd o wasanaethau a gomisiynir o'r sector annibynnol. Roedd arolygiad o'r ddarpariaeth fewnol yn gadarnhaol ac, yn gyffredinol, perfformiodd darpariaeth y sector annibynnol yn dda mewn arolygiad hefyd. Mae'r tîm contractau/comisiynu wedi sicrhau gwelliant lle'r oedd diffygion yn y gwasanaeth.

Mae prosesau sicrwydd ansawdd wedi'u sefydlu i gael adborth uniongyrchol gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofawyr drwy arolygon, ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, a holiaduron.

Plant

Mae datblygu'r gwasanaethau i blant wedi parhau i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau a dewis.

Mae atgyfeiriadau ar gyfer asesiad wedi cynyddu er bod nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi aros yr un fath o fewn Blaenau Gwent. Dechreuodd yr ad-drefnu gwasanaethau yn 2011. Mae hyn wedi cael ei adolygu ac roedd adborth cadarnhaol gan weithwyr proffesiynol perthynol o ran swyddogaeth y ddau dîm cefnogi plant a theuluoedd. Nodwyd meysydd ychwanegol i'w datblygu wrth symud ymlaen, yn arbennig cynnwys y gwasanaethau integredig, Teuluoedd yn

Gyntaf/Dechrau'n Deg o fewn cylch gwaith y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg ym Mlaenau Gwent ar y lefel ail uchaf yng Nghymru ac mae arian ychwanegol wedi ei geisio i ddatblygu'r gwasanaethau ymhellach.

Mae gwasanaethau maethu wedi parhau i lwyddo i recriwtio teuluoedd maethu ychwanegol i'r gwasanaeth mewnol, gan leihau nifer y plant a leolir mewn trefniadau maethu annibynnol a darparu mwy o drefniadau lleol. Nododd arolygiad AGGCC o wasanaethau maethu feysydd ar gyfer gwelliant yn ymwneud â phrosesau dogfennol. Ystyriwyd bod y canlyniadau i blant a phobl ifanc yn gadarnhaol.

Ceisir adborth yn uniongyrchol gan bobl ifanc sy'n derbyn gwasanaethau a gan ofalwyr. Comisiynwyd adolygiad allanol o wasanaethau plant sy'n derbyn gofal yn 2012/13 gan y Cynllun Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) i geisio safbwyntiau plant/pobl ifanc a'u profiadau o dderbyn gofal. Amlygwyd ystod o feysydd ar gyfer gwelliant yn dilyn hyn a sefydlwyd cynllun gweithredu i gynnwys y rhain a ddatblygwyd gyda NYAS a phobl ifanc.

Meysydd o gynnydd

- Ceisio adborth adeiladol i wella gwasanaethau.

Meysydd i'w gwella

- Datblygu dulliau i sicrhau ansawdd lleoliadau y tu allan i'r sir i bobl ag anabledd dysgu.

Yr effaith ar fywydau pobl:

Oedolion

Mae'r cynnydd o ran derbyn taliadau uniongyrchol wedi parhau. Mae hyn yn gwella'r dewis i unigolion ar gyfer penderfyniadau am sut a ble y maent yn derbyn gofal. Caiff canlyniadau i bobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol eu hadolygu drwy reoli gofal.

O ran gwasanaethau a gomisiynir, mae'r tîm contractau a chomisiynu wedi nodi meysydd ar gyfer gwell gweithio ar y cyd gyda'r bwrdd iechyd i fonitro a gwella ansawdd gwasanaethau. Pan fo gwasanaethau'n methu â darparu'r ansawdd a ddisgwylir, mae proses ar gyfer rheoli perfformiad ar waith. Mae prosesau ar gyfer cyfeirio pryderon at uwch swyddogion pan nodir methiant parhaus i wella wedi arwain at wahardd lleoliadau. Mae gwaith ychwanegol wedi'i wneud i archwilio'r trothwyon ar gyfer rheoli perfformiad. Mae arolygwyr rheoleiddio AGGCC wedi nodi y cymerir ymagwedd gref gyda gwasanaethau sy'n methu.

Mae dulliau wedi'u sefydlu ar gyfer amddiffyn oedolion agored i niwed gyda phrosesau clir ar gyfer atgyfeirio - gwelodd y cyngor gynnydd mewn atgyfeiriadau diogelu yn 2012/13 a chafodd y rhai yr adroddwyd eu bod yn cynrychioli risg eu rheoli. Mae addysg/gwybodaeth ehangach ynghylch amddiffyn oedolion wedi ei darparu i gymunedau lleol ac mae rhaglen hyfforddi barhaus i staff mewnol a darparwyr allanol wedi parhau.

Sefydlwyd Y Bwrdd Diogelu Oedolion Ledled Gwent yn ystod y flwyddyn, wedi'i gynnal a'i gadeirio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Nododd hwn gamau gweithredu allweddol i wella trefniadau diogelu i oedolion. Mae tasgau/camau gweithredu'n cael eu datganoli i is-grwpiau i gael gwell cysondeb ar draws y pum awdurdod lleol sydd ynghlwm ac mae ystod eang o sefydliadau partner ar y bwrdd.

Mae arolygiadau rheoleiddio AGGCC wedi nodi canlyniadau da i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac yn y mwyafrif o wasanaethau a gomisiynir. Pan fu methiannau, mae'r tîm contractau a chomisiynu wedi cymryd camau i geisio gwelliannau ac wedi gweithio gydag AGGCC a phartneriaid eraill i roi'r weithdrefn 'cyfeirio pryderon at uwch swyddogion' ar waith.

Plant

Mae'r cyngor yn rhagweithiol o ran ceisio adborth ac fe gomisiynodd adolygiad annibynnol o wasanaethau i blant sy'n derbyn gofal gan NYAS. Roedd yr adroddiad i brofiadau o dderbyn gofal wedi ceisio safbwyntiau hanner y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan wasanaethau i blant Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi adborth cadarnhaol ynghylch y canlyniadau i bobl ifanc sy'n derbyn gwasanaeth ac yn amlygu rhai meysydd lle y gellid gwneud gwelliannau; roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud â chyfathrebu, rhannu gwybodaeth a chynllunio ar gyfer pobl ifanc. Mae grŵp gorchwyl yn archwilio'r meysydd hyn a bydd cynnydd ar yr ymateb iddynt yn cael ei fonitro drwy ein cyfarfodydd ymgysylltu.

Mae cyfanswm y plant ar y gofrestr amddiffyn plant wedi gostwng, fel ag y gwnaeth y llynedd. Mae'r cyngor yn parhau i gynnal canlyniadau da o ran dangosyddion perfformiad ar gyfer meysydd allweddol diogelu. Mae amserlenni ar gyfer cyfarfodydd grwpiau craidd cychwynnol yn dal yn uwch na chyfartaledd Cymru er nad yw targedau mewnol wedi eu cyrraedd.

Mae'r cyngor wedi cymryd rhan yn natblygiad trefniadau'r bwrdd rhanbarthol diogelu plant, gan gwmpasu trefniadau diogelu'r pum awdurdod rhanbarthol, iechyd, addysg ac asiantaethau gwirfoddol. Bydd trefniadau llywodraethu a mesur effeithiolrwydd ac effaith ar wasanaethau, yn lleol ac yn rhanbarthol, yn ddangosydd pwysig o lwyddiant y trefniant hwn.

Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi gweithio'n agos ag addysg i ddarparu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o ddulliau diogelu gyda staff ysgolion. Cododd adroddiad diweddar Estyn bryderon ynghylch ymwybyddiaeth o'r trefniadau llywodraethu corfforaethol o ran rheolwyr canol o fewn addysg. Cymerodd y cyfarwyddwr gamau cadarnhaol, gan weithio gyda'r uwch dîm rheoli newydd o fewn addysg i sicrhau bod hyn yn cael ei unioni o fewn y cynllun gweithredu cyffredinol. Mae'r cyfarwyddwr cynorthwyol ar gyfer y gwasanaethau i blant yn parhau i weithio'n uniongyrchol gydag addysg i ddatblygu'r cynllun gweithredu.

Canfu arolygiad AGGCC o wasanaethau maethu'r cyngor fod y gwasanaeth yn gweithredu'n dda yn gyffredinol.

Meysydd o gynnydd

- Adolygu trothwyon a chryfhau adolygiad o berfformiad y gwasanaethau a gomisiynir.

Meysydd i'w gwella

- Parhau i sbarduno a chynnal gwelliannau yn y trefniadau diogelu gyda phartneriaid addysg.

GALLU

Darparu Gwasanaethau Cymdeithasol:

Mae'r cyngor yn ceisio rheoli o fewn hinsawdd ariannol heriol. Mae wedi blaenoriaethu ac amddiffyn y cyllidebau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Yn 2012, dangosodd systemau monitro cyllidebau'r adran yn gynnwys bod pwysau ariannol yn y gwasanaethau cymdeithasol. Arweiniodd hyn at gynnull grŵp gorchwyl a gorffen yn y chwarter cyntaf, a adroddodd yn yr hydref, i nodi meysydd allweddol o bwysau a datblygu camau mewn ymateb.

Comisiynwyd adolygiad annibynnol o'r gwasanaethau i oedolion i adolygu a dadansoddi pwysau costau, a gwnaed amrywiaeth o argymhellion. Darparwyd manylion i'w craffu gyda chynigion a dewisiadau ar gyfer symud ymlaen.

Mae'r cydweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili o ran datblygu gweithlu yn darparu dull wedi'i gynllunio a'i strwythuro o hyfforddi a datblygu staff yn seiliedig ar anghenion gwasanaethau. Bydd AGGCC yn cynnal ymweliadau â safleoedd i adolygu'r gwasanaeth hwn yn 2013/14.

Oedolion

Mae'r gwasanaethau i oedolion wedi gorwario'r gyllideb ac mae hwn yn dal i fod yn faes o bwysau ariannol sylweddol. Mae'r strategaeth ariannol tymor canolig drafft ar gyfer y cyngor yn ystyried y pwysau o newid demograffig. Bydd yr angen yn parhau i adolygu sut y bydd gwasanaethau'n dal i gael eu darparu neu eu hail-lunio

Mae adroddiad y cyfarwyddwr a thystiolaeth ategol yn nodi amrywiaeth o strategaethau i fynd i'r afael â'r diffygion ariannol y mae'r cyngor yn eu hwynebu. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio ar y cyd, adolygu strategaethau comisiynu, systemau broceriaeth gyda Rhaglen Welliant Gydweithredol Deddwyrair Cymru, parhau i archwilio ffyrdd newydd o weithio (datblygiadau gofal ychwanegol ac eiddilwch) ac ad-drefnu gwasanaethau.

Mae monitro'r defnydd o ofal cymhleth yn y gymuned wedi arwain at sicrhau arian "buddsoddi i arbed". Bydd angen i'r gwasanaethau cymdeithasol barhau i weithio'n agos â phartneriaid iechyd i drafod trefniadau ariannu ac effaith pecynnau cymhleth o ofal yn y gymuned ar adnoddau.

Mae'r gweithlu'n dal yn sefydlog ac mae gwaith wedi ei wneud i ymchwilio a gwella cyfraddau salwch ac absenoldeb staff, gan arwain at welliant o 13% mewn presenoldeb. Bydd monitro canlynol hyn yn rhoi sicrwydd ychwanegol o'r symudiad cadarnhaol a pha un a yw hyn wedi ei gynnal, yn ogystal â'r effaith cyffredinol ar y gweithlu.

Plant

Ni wnaeth trefniadau rheoli ar y cyd ar gyfer y gwasanaethau i blant gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn yr hydref effeithio ar ddatblygiad parhaus ac adolygiad o wasanaethau o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

Mae'r perfformiad cadarnhaol cyson yn dilyn ailstrwythuro'r tîm gwasanaethau i blant yn rhoi sicrwydd o gryfder o fewn y maes gwasanaeth hwn.

Dylai cadernid a datblygiad hirdymor y gwasanaethau i blant gael eu gwella drwy ganolbwyntio ar strategaethau ataliol wedi'u hategu gan strwythurau newydd, cynnwys y tîm gwasanaethau integredig (Teuluoedd yn Gyntaf. Dechrau'n Deg a gofal plant y blynyddoedd cynnar) o fewn cyfrifoldebau'r cyfarwyddiaethau, a gweithio ar y cyd.

Meysydd o gynnydd

- Datblygiad pellach o strategaethau ataliol o fewn y gwasanaethau i blant.
- Adolygiad o salwch staff, y camau a gymerwyd mewn ymatebi hynny a'r gwelliant dilynol mewn presenoldeb.

Meysydd i'w gwella

- Monitro cyllid yn ofalus a pharhaus, ynghyd â chyfleoedd ar gyfer cydweithio.

Darparu cyfeiriad:

Ceir cymorth corfforaethol i wasanaethau cymdeithasol; mae'r cynllun gwella corfforaethol yn glir yn ei ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol cryf a hybu lles. Mae arweiniad o fewn y gwasanaethau cymdeithasol wedi bod yn sefydlog gyda thîm uwch reoli cryf yn gweithredu drwy gydol 2012/13. Er bod adnoddau sylweddol ar lefel uwch reoli wedi eu lleoli yn yr agenda gydweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, nid oes tystiolaeth fod hyn wedi effeithio ar berfformiad y gwasanaethau cymdeithasol o ddydd i ddydd nac y bu effaith ddilynol ar fywydau pobl sy'n derbyn gwasanaethau.

Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn cydnabod yr heriau ar gyfer 2013/14 ac yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer yr adran i barhau'r rhaglen i esblygu a datblygu gwasanaethau yng ngoleuni anghenion lleol newidiol, effaith strategaeth/polisi'r Llywodraeth ar ddiwygio lles, a chyfyngiadau ariannol lleol.

Mae dechrau 2013/14 wedi gweld heriau ychwanegol gydag ymadawiad cyfarwyddwr cynorthwyol y gwasanaethau i blant ac oedolion. Gwnaed trefniadau dros dro yn fewnol.

Mae gan yr adran gwasanaethau cymdeithasol ystod o brosesau a systemau ar waith i ddarparu trefniadau llywodraethu clir ac mae'r cyfarwyddwr yn darparu goruchwyliaeth glir o'r adrodd hwn ar lefel gorfforaethol bob chwarter.

Mae'r cyngor yn ymgysylltu â rheoleiddwyr mewn cyfarfodydd bob chwarter, ac mae hyn yn cynnwys cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol.

Mynychodd AGGCC gyfarfod craffu lle'r oedd tystiolaeth o rywfaint o her. Mae gwaith gyda rheoleiddwyr wedi cynnwys datblygu craffu o fewn y cyngor. Mae'r cyfarwyddwr yn adrodd bod pynciau gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu cynnwys mewn rhaglenni datblygu ar gyfer aelodau'r cyngor.

Oedolion

Mae meysydd allweddol a nodwyd gan y cyfarwyddwr yn cynnwys y pwyslais parhaus ar wella rheoli/adolygu gofal i gyrraedd targedi (er bod perfformiad yn dangos rhyw gymaint o welliant parhaus), pwyslais parhaus ar gydweithio a dilyn strategaethau i alluogi pobl i fyw'n annibynnol. Dylid ystyried darparu llwybrau a gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth pobl o adnoddau o fewn eu cymunedau eu hunain. Byddai hyn yn galluogi pobl i geisio cymorth o ffynonellau eraill ac yn sbarduno'r agenda a nodwyd yn strategaeth byw'n annibynnol y cyngor. Gallai'r adolygiad o'r system wybodaeth gofal cymdeithasol ddarparu cyfle i ddatblygu hyn ymhellach.

Mae adolygiad o drefniadau diogelu i oedolion wedi ei flaenoriaethu a gallai cyfleoedd ar gyfer cydweithio drwy'r bwrdd Gwent gyfan gefnogi hyn.

Plant

Gwelodd diwedd y flwyddyn ymadawiad cyfarwyddwr cynorthwyol y gwasanaethau i blant. Sefydlwyd trefniadau dros dro i lenwi'r swydd wag a dechreuwyd recriwtio ar gyfer y swydd.

Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn amlinellu datblygiad parhaus yn y meysydd lle mae'r sylfeini wedi eu gosod dros y flwyddyn ddiwethaf.

Bydd gweithredu gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol yn rhoi cyfle i ddatblygu ar lefel ehangach y gwaith sydd eisoes wedi ei ddechrau o fewn y trefniadau tridarn presennol. Er hynny, bydd angen i'r gwasanaeth gynnal ei safon uchel bresennol tra ei fod yn ymgorffori galwadau dau awdurdod lleol mwy i'w systemau. Bydd angen i'r cyngor hefyd reoli'r her sylweddol a gyflwynir gan ddiwygiadau mewn cyfiawnder teuluol gydag amserlenni diwygiedig ar gyfer sefydlogrwydd.

Meysydd o gynnydd

- Arweiniad cryf ac ymatebol.

Meysydd i'w gwella

- Parhau i ddatblygu a chryfhau trefniadau craffu.